



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG46892

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau rhag
Symiau Uwch) (Cymru) (Diwygio) 2023

Chwefror 2023

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

Trosolwg

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad technegol ar Reoliadau drafft i ychwanegu eiddo sy'n ddarostyngedig i amod cynllunio sy'n pennu na chaniateir defnyddio annedd ond ar gyfer llety gwyliau tymor byr, neu sy'n cyfyngu meddiannaeth o'r eiddo hwnnw fel unig neu brif breswylfa person, fel dosbarth ar annedd na chaiff awdurdod bilio wneud penderfyniad i gymhwyso cyfradd uwch o dreth gyngor iddo (hy anheddau na chaiff awdurdod lleol gymhwyso premiwm y dreth gyngor iddo). Bwriedir i'r ddogfen hon yn grynodedig o'r ymatebion a ddaeth i law. Er gwaethaf y pwerau dewisol eang sydd gan awdurdodau lleol yn gyffredinol ar filiau treth cyngor.

Camau i'w cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion Cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Cangen Polisi'r Dreth Gyngor
Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: LGFR.Ymgynghoriadau@llyw.cymru

Copïau Ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r ddogfen ymgynghori:

<https://www.llyw.cymru/rheoliadau-drafft-y-dreth-gyngor-eithriadau-rhag-symiau-uwch-cymru-diwygio-2023-html>

Cynnwys

Cyflwyniad	4
Yr ymgynghoriad	4
Pwy ymatebodd i'r ymgynghoriad?	4
Crynodeb o'r Ymatebion	5
Ymateb Llywodraeth Cymru	8
Y camau nesaf.....	9
Atodiad A – Rhestr o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad.....	10

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad technegol ar Reoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau rhag Symiau Uwch) (Cymru) (Diwygio) 2023 a gynhaliwyd rhwng 11 Tachwedd a 22 Rhagfyr 2022.

Diben y newid deddfwriaethol yw diwygio Dosbarth 6 o'r eithriadau i bremiymau'r dreth gyngor ar gyfer anheddau a feddiennir o bryd i'w gilydd ac ychwanegu eiddo sy'n destun amod cynllunio sy'n pennu na chaniateir defnyddio annedd ond ar gyfer llety gwyliau tymor byr, neu sy'n cyfyngu meddiannaeth o'r eiddo hwnnw fel unig neu brif breswylfa person. Byddai eiddo o'r fath yn atebol am y dreth gyngor ar y gyfradd safonol ond ni fyddai modd codi premiwm arno, er gwaethaf y pwerau dewisol eang sydd gan awdurdodau lleol yn gyffredinol ar filiau treth cyngor.

Gofynnodd yr ymgynghoriad am farn am eglurder y ddeddfwriaeth ddrafft ac ymarferoldeb ei rhoi ar waith. Ymgynghorwyd ar y cynigion polisi rhwng 25 Awst a 17 Tachwedd 2021.

Yr ymgynghoriad

Gwahoddwyd sylwadau fel rhan o gyfnod ymgynghori o chwe wythnos a ddechreuodd ar 11 Tachwedd 2022 ac a ddaeth i ben ar 22 Rhagfyr 2022. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar dudalennau ymgynghori gwefan Llywodraeth Cymru. Roedd ymatebwyr yn gallu cyflwyno eu barn a'u sylwadau ar bapur, drwy e-bost neu ar-lein, ac yn Gymraeg neu Saesneg. E-bostiwyd y ddolen i'r ymgynghoriad at amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys yr awdurdodau lleol, sefydliadau cynrychioliadol a chyrrff proffesiynol yn y sectorau perthnasol.

Daeth cyfanswm o 143 o ymatebion i'r ymgynghoriad i law, yn adlewyrchu ystod eang o fuddiannau a safbwyntiau. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys tri chwestiwn yn ymwneud â'r Rheoliadau drafft ochr yn ochr â chwestiynau safonol am y Gymraeg.

Roedd yr ymgynghoriad yn gymwys i Gymru'n unig.

Pwy ymatebodd i'r ymgynghoriad?

Daeth cyfanswm o 143 o ymatebion i'r ymgynghoriad i law. Mae'r holl ymatebion hyn wedi'u hystyried a'u dadansoddi. Roedd yr ymatebwyr yn cynrychioli ystod o grwpiau buddiant, fel a ganlyn.

Categori o Ymatebydd	Nifer yr Ymatebwyr
Awdurdod Lleol	2
Perchennog eiddo gwag hirdymor	4
Aelod o'r cyhoedd	18
corff proffesiynol / Corff cynrychioliadol	8
Darparwr llety hunanddarpar	95
Perchennog Ail Gartref	7
Perchennog Ail Gartref gydag amod cynllunio ar yr eiddo	7
Cyngor Tref neu Gymuned	2

Ceir rhestr o'r ymatebwyr heblaw'r rhai a ofynnodd am aros yn ddiennw yn Atodiad A. Lle nad yw'r ymatebwyr wedi darparu enw sefydliad, tybir eu bod wedi ymateb mewn capasiti personol ac maent yn cael eu categorio fel aelod o'r cyhoedd.

Lle y gofynnodd ymatebwyr inni beidio â chyhoeddi eu manylion, maent yn ymddangos fel 'Dienw' er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Lle y cyflwynodd ymatebydd ymateb ar ffurf nad oedd yn cynnwys datganiad yn caniatáu i'w manylion gael eu cyhoeddi, fe'u nodir yn 'Ddienw'.

Crynodeb o'r Ymatebion

Mae'r ddogfen hon yn anelu at gyflwyno'r safbwyntiau a'r themâu cyffredinol a ddarparwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad, yn hytrach na chrynhofi pob ymateb unigol.

Sbardunodd yr ymgynghoriad ystod o sylwadau oedd yn canolbwyntio ar faterion y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad yn hytrach na'r materion a godwyd yn yr ymgynghoriad technegol. Ystyriwyd y safbwyntiau hyn wrth asesu effaith y newidiadau arfaethedig, ond mae'r crynodeb canlynol yn canolbwyntio ar yr ymatebion i'r cwestiynau a nodir yn yr ymgynghoriad technegol.

Cwestiwn 1

A yw'r Rheoliadau drafft yn rhoi eglurder ynglŷn â'r amgylchiadau pan fo eiddo sydd ag amod cynllunio yn gallu cael ei eithrio o bremiwm y dreth gyngor? Os nad ydynt, sut y gellir eu gwella?

Rhoddodd 12 o ymatebwyr ymateb ysgrifenedig sy'n berthnasol i'r cwestiwn. O'r naw hyn croesawodd (75%) y Rheoliadau drafft a'r eglurder a ddarparwyd.

Er enghraifft, dywedodd un awdurdod lleol *"Rydym yn credu bod yr addasiadau i Ddosbarth 6 yn glir ac yn rhesymol ac yn adlewyrchu'r amodau cynllunio diweddaraf"* a dywedodd un arall *"Mae'r Rheoliadau drafft yn nodi'n glir yr amgylchiadau pan all eithriad rhag y mae premiwm fod yn berthnasol yn achos eiddo gydag amodau cynllunio a chyfyngiadau"*.

Dywedodd ymatebwr arall, gweithredwr hunanarlwyo, *"Mae'r rheolau'n glir"*.

Roedd tri ymatebwr (25%) o'r farn nad oedd y rheoliadau drafft yn rhoi eglurder. Er enghraifft, dywedodd un fod angen "*egllurder pellach ar y polisi o ran adeiladau sydd wedi eu trosi ar gyfer llety gwyliau ond na ellid eu defnyddio ar gyfer llety gwyliau hirdymor neu eu gwerthu fel tai*".

Lle y rhoddodd unrhyw ymatebwr sylw ar bolisi trethi lleol ehangach, mae hyn wedi'i nodi o dan y crynodeb ar gyfer Cwestiwn 3.

Cwestiwn 2

A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol i'r cynnig i estyn Dosbarth 6 o'r eithriad i bremiwm y dreth gyngor? Allwch chi roi enghreifftiau?

rhoddodd 26 o ymatebwyr ymateb sy'n berthnasol i'r cwestiwn. O'r rhain, nid oedd 24 (92%) o'r farn bod unrhyw ganlyniadau anfwriadol.

Mae adran 1(b) o'r rheoliadau drafft yn pennu y gellir defnyddio annedd ar gyfer llety gwyliau tymor byr yn unig. Cwestiynodd dau weithredydd hunanddarpar y defnydd o'r ymadrodd 'tymor byr'. Er enghraifft, dywedodd un ymatebwr "*Mae llawer o ganiatâdau cynllunio hŷn yn cyfyngu i 'ddefnydd gwyliau' yn unig ac nid ydynt yn pennu bod rhaid i'r eiddo gael ei 'osod' neu'n pennu gwyliau 'tymor byr'*". Mynegodd yr ymatebwyr bryderon y byddai'r eiddo hyn yn disgyn y tu allan i fwriad y ddarpariaeth.

Lle y rhoddodd unrhyw ymatebwr sylw ar bolisi trethi lleol ehangach, mae hyn wedi'i nodi o dan Gwestiwn 3.

Cwestiwn 3

A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am y Rheoliadau drafft?

Cafwyd cyfanswm o 105 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd y mwyafrif yn ymwneud â'r safbwynt polisi yn hytrach nag eglurder y ddeddfwriaeth ddrafft.

Croesawodd rhai ymatebwyr (6%) y rheoliadau drafft. Er enghraifft, dywedodd un awdurdod lleol " *... Ni ddylai eiddo ddiodeff premiwm y dreth gyngor lle mae amodau cynllunio'n gwahardd ei ddefnydd rhag bod yn annedd fyw, neu lle mae amodau cynllunio'n cyfyngu ei ddefnydd i wyliau yn unig.*" Dywedodd gweithredwr hunanddarpar "*Rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru yn gwrandao ar berchnogion busnesau hunanddarpar dilys, sy'n dod ag incwm i'r economi leol trwy wariant gan ymwelwyr a cyflogaeth.*"

Sylwadau ehangach

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn (47%) am i Lywodraeth Cymru ystyried eithriad ar gyfer categorïau pellach o eiddo, er enghraifft: eiddo o fewn cwrtll prif breswylfa'r perchennog; arallgyfeirio ffermydd; elusennau cofrestredig sy'n darparu seibiant i ofalwyr neu berchnogion sy'n rhoi nosweithiau ar gyfer pobl sy'n codi arian ac unrhyw fusnes llety hunanddarpar sydd wedi'i gofrestru ar gyfer TAW. Roeddent hefyd yn credu na ddylai unrhyw eithriadau fod yn ôl disgrisiwn yr awdurdodau lleol.

Roedd llawer o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn (27%) yn adlewyrchu barn yr ymatebwyr ar ymagwedd bolisi Llywodraeth Cymru at gynyddu'r trothwyon ar gyfer eiddo sy'n darparu llety hunanddarpar i gael ei ddsbarthu fel eiddo annomestig ac wedyn gall ddod yn atebol am bremiwm y dreth gyngor o 1 Ebrill 2023.

Roedd rhai o'r ymatebion (5%) o'r farn y byddai'r Rheoliadau drafft yn cael effaith andwyol ar dwristiaeth.

Rhoddodd gweddill yr ymatebion (15%) sylwadau eraill, gyda llawer ohonynt yn trafod amgylchiadau personol.

Mae'r sylwadau ehangach a wnaed gan ymatebwyr yng Nghwestiynau 1 a 2 yn cael eu hadlewyrchu yn y crynodeb o'r ymatebion ar gyfer y cwestiwn hwn.

Cwestiwn 4 a 5

Hoffem wybod eich barn am yr effaith y byddai'r rheoliadau drafft yn ei chael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y byddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gall y Rheoliadau drafft gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau positif neu gynyddu effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cafwyd 192 o ymatebion ar gyfer y ddau gwestiwn hyn. Nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i Gwestiwn 4 (74%) a Chwestiwn 5 (87%) yn gysylltiedig â'r cwestiwn; neu roeddent yn ymwneud â barn bersonol a defnydd o'r Gymraeg yn hytrach nag effaith y cynigion; neu roeddent yn sylwadau ar ystyriaethau polisi ehangach ar y Gymraeg sydd y tu hwnt i gwmpas trethiant lleol a'r ymgynghoriad hwn.

O'r ymatebion i'r ddau gwestiwn a gafodd eu dadansoddi, daeth y themâu canlynol i'r amlwg.

Roedd tua chwarter o'r ymatebwyr (25%) o'r farn y byddai'r rheoliadau drafft yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Er enghraifft, dywedodd un awdurdod lleol "*Credwn y gall y rheoliadau hyn fod yn gadarnhaol i gymunedau Cymraeg eu hiaith (e.e. y gymuned amaethyddol) lle bu arallgyfeirio i ddarparu unedau sydd wedi'u neilltuo at ddefnydd gwyliau.*"

Roedd tua dwy ran o dair o'r ymatebwyr (63%) o'r farn na fyddent yn cael unrhyw effaith.

Nododd rhai ymatebwyr (13%) nad oeddent yn deall perthnasedd y cwestiwn.

Cwestiwn 6

Unrhyw sylwadau pellach.

Yng Nghwestiwn 6, gofynnwyd i ymatebwyr i'r ymgynghoriad nodi unrhyw faterion cysylltiedig a oedd heb gael eu trin yn benodol yn eu hymatebion i Gwestiynau 1 i 5. O ganlyniad, roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cynnwys nifer o themâu.

Rhoddodd 83 o ymatebwyr sylwadau pellach.

Croesawodd nifer bach o'r ymatebwyr (4%) y rheoliadau drafft.

Dywedodd rhyw un rhan o dair o'r ymatebwyr (30%) y dylid sefydlu system apeliadau ar wahân.

Ailadroddodd ymatebion eraill themâu a nodir yng Nghwestiwn 3.

Roedd 22% o'r ymatebion yn adlewyrchu barn yr ymatebwyr ar y polisi i gynyddu'r trothwyon gosod ar gyfer eiddo sy'n darparu llety hunanddarpar i gael eu dosbarthu fel llety annomestig a allai wedyn golygu y daw eiddo'n atebol am bremiwm y dreth gyngor o 1 Ebrill 2023.

Gofynnodd 14% o'r ymatebion i Lywodraeth Cymru ystyried eithriad ar gyfer categorïau pellach o eiddo.

Roedd 5% o'r ymatebwyr o'r farn y byddai'r Rheoliadau drafft yn cael effaith andwyol ar dwristiaeth.

Rhoddodd gweddill yr ymatebion (25%) sylwadau eraill, gyda llawer ohonynt yn trafod amgylchiadau personol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru'n ddiolchgar i bawb sydd wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn ac yn enwedig i bawb sydd wedi ymateb. Gan mai dogfen gryno yw hon, mae'n bosibl nad yw'r holl faterion a amlinellwyd yn yr ymatebion wedi cael eu hadlewyrchu'n llawn, ond mae pob ymateb wedi cael ei ystyried yn ofalus. Nid yw absenoldeb materion neu awgrymiadau yn y crynodeb hwn yn golygu eu bod wedi cael eu diystyru. Mae'n bosibl y bydd llawer o faterion yn parhau i fod yn berthnasol i'r rhaglen waith ehangach fel rhan o ddull tair elfen [Llywodraeth Cymru](#) i fynd i'r afael â phroblemau fforddiadwyedd ac effaith ail gartrefi a llety gwyliau ar gymunedau a'r Gymraeg.

Mewn ymateb i bwynt ar eglurder technegol y rheoliadau drafft a'r cyfeiriad at osodiadau llety gwyliau 'tymor byr', bydd y rheoliadau drafft yn cael eu diwygio i ddileu'r cyfeiriad at 'tymor byr'. Bydd hyn yn sicrhau nad yw Llywodraeth Cymru yn hepgor unrhyw eiddo na fydd cyfnod amser wedi'i bennu o bosibl yn amod cynllunio eu llety gwyliau rhag cael ei eithrio rhag y premiwm.

Y camau nesaf

Cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol Ddatganiad Ysgrifenedig ochr yn ochr â'r crynodeb hwn o'r ymatebion yn nodi'r bwriad i gyflwyno'r ddeddfwriaeth hon fel y'i diwygiwyd Y dyddiad ymgeisio arfaethedig ar gyfer cyflwyno'r eithriad fydd 1 Ebrill 2023, ar y cyd â'r trothwyon gosod uwch ar gyfer eiddo sy'n darparu llety hunanddarpar i'w ddsbarthu fel eiddo annomestig.

Atodiad A – Rhestr o’r rhai a ymatebodd i’r ymgynghoriad

Brenig Cottage Escapes
Bythynnod Gwledig Y Rhos
Canllefaes ventures ltd
Capel Bach
Cilfach Holidays
Clydey Cottages Pembrokeshire
Clyne Farm Centre/ Dylan Thomas Birthplace/ G P Haden and Associates
Cyngor Gwynedd
Cyngor Tref Caerfyrddin
East Jordeston Cottages
Faircroft
Cyngor Sir y Fflint
Golwg y Graig
Hengoed Farm Holidays
Jasmine Cottage & Velvet Cottage
Llinos and Tyddyn Crwn Letting
Madog Barn self catering holiday let
Un Llais Cymru
Potterslade Holiday Cottage
Cymdeithas Broffesiynol Hunan Arlwywyr: Cangen Cymru
Red Kite Cottages
Rosemoor Country Cottages
Tai Gwyliau Dwyfach
Tan y Bryn Cottages
Tan y Bryn Holiday Cottage
Tanyfoel Holiday Barns
The Bothy At Tyddyn Du
The Laundry retreat
The Neuadd
Cymdeithas Fasnach Twristiaeth Bae Abertawe
Tregynon Cottages
Ty Godro
Cynghrair Twristiaeth Cymru
Wye View Limited
Y Grana, Tan yr Allt
Ymateb fel unigolyn
Unigolion preifat x 17
Ddienw x 91